# PWYLLGOR PENSIYNAU, 07.10.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Dafydd Meurig, Peredur Jenkins, John P. Roberts a’r Cynghorydd Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn)

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd Peter Read. Nodir yr ymddiheuriadau uchod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd mater brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2013 fel rhai cywir.

## 5. MONITRO BUDDSODDIADAU EIDDO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cynnig newid i drefniadau monitro buddsoddiadau ym maes eiddo (sydd bellach mewn pedwar cronfa er mwyn gwasgaru risg).
Derbyniwyd awgrym drafft gan Hymans Robertson i drefnu diwrnod llawn gyda rheolwyr cronfeydd eiddo ar y cyd er mwyn trafod a monitro’r buddsoddiadau yn effeithiol. Buasai newid i’r trefniant cyfredol yn gyfystyr a chael ‘dwy sesiwn fonitro ychwanegol’ y flwyddyn gyda chyfarfodydd Chwefror a Mai yn cael eu cynnal yn Llundain a chyfarfodydd Gorffennaf a Thachwedd yng Nghaernarfon.
Amlygwyd y buasai’r trefniant yn cryfhau cysylltiadau a bod cynnal cyfarfodydd gyda rheolwyr y pedwar cronfa eiddo gyda'i gilydd yn fanteisiol. Y gobaith yw gweithredu’r drefn newydd o fis Chwefror 2014.

**PENDERFYNWYD**

**a) Derbyniwyd yr argymhelliad gyda chyfnod prawf o flwyddyn.**

## 6. PRISIAD ACTIWARAIDD 2013: TRINIAETH PYLLAU CYFLOGWYR LLAI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nodi pam yr oedd rhai cyflogwyr yn cael eu gosod gyda'i gilydd at ddibenion prisio a sefydlu cyfradd cyflogwr ac yn argymell diddymu'r ddau bwll sydd wedi eu sefydlu ar gyfer dibenion actiwaraidd teirblynyddol cyflogwyr llai gan fod yswiriant yn erbyn ymddeoliadau salwch ar gael bellach , ac yn darparu ffordd arall i sicrhau'r risg i'r cyflogwyr hyn.

Canran o gyflogres y cyflogwr yw'r premiwm yswiriant yn yr un modd a'r cyfrifiad cyfraniadau cyflogwr. Ffigwr mynychol ar gyfer cost yr yswiriant yw 1.1% ar gyfer cyflogwyr bach a byddai cyfradd cyfraniad y cyflogwr fel y cyfrifir gan yr actiwari yn cael ei ostwng gan y canran a delir am yr yswiriant. Nid oes cost ychwanegol felly i'r cyflogwr.

Cydnabyddir y bydd rhai cyflogwyr yn wynebu cynnydd uwch na'r lleill yn eu cyfraniadau fel canlyniad i'r newid yma (oherwydd y proffil oed aelodau gwahanol sydd ganddynt) ac mae angen rheoli'r sefyllfa hwnnw yn ofalus.

Mae cyfarfodydd cychwynnol gyda rhai cyflogwyr wedi eu cynnal (holl aelodau'r pwll wedi eu gwahodd) i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am yr yswiriant salwch. Gan fod yswiriant salwch nawr ar gael argymhellwyd y dylid diddymu'r ddau bwll ar gyfer cyflogwyr bach a bod yr yswiriant salwch yn hanfodol ar gyfer y cyflogwyr perthnasol.

Bwriad yw diddymu'r pwll erbyn diwedd Mawrth 2014.

**PENDERFYNWYD**

**a) diddymu'r ddau bwll ar gyfer cyflogwyr bach a**

**b) bod yr yswiriant salwch yn hanfodol ar gyfer y cyflogwyr perthnasol**

## 7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn adrodd er gwybodaeth ar wir ganlyniadau gweithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA. Nodwyd fod yr un adroddiad eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn amlinellu sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa ar y cyd ag arian y Cyngor yn 2012/2013. Eglurodd y bu cyfraddau llog yn isel iawn, ond fod y prif swm heb ei golli, a'r targed sgôr credyd wedi ei gyrraedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 8. PRESENOLDEB YNG NGHYNHADLEDD 'LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF)' AR 4 - 6 RHAGFYR 2013

Eglurwyd fod cyfle i un aelod fynychu'r gynhadledd uchod yn Bournemouth. Prif nôd y gynhadledd yw codi ymwybyddiaeth ar sut mae cwmnïau yn cael eu rheoli a rôl stiwardiaeth cronfeydd pensiwn. Tynnwyd sylw bod cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar y 5ed o Ragfyr. Nodwyd fod aelodaeth o'r LAPFF yn rhoddi dau le i bob Cronfa, fod Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) am fynychu, ond fod lle ar gyfer un enwebiad arall.

**PENDERFYNWYD**

**Y Rheolwr Buddsoddi i rannu gwybodaeth gyda'r Cyng. John Pughe Roberts.**

## 9. CYNHADLEDD BUDDSODDI LGC 4 – 6 MEDI 2013

Adroddiad wedi ei dderbyn gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu uchafbwyntiau Cynhadledd Buddsoddi LGC 2013. Cynghorydd Hywel Eifion Jones, Cynghorydd Dafydd Meurig a Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi wedi mynychu'r digwyddiad. Amlygwyd bod y gynhadledd wedi bod yn gyfle da i rwydweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi a chynrychiolwyr o gronfeydd eraill ac i drafod materion cyfredol.

**DERBYNIWYD Y WYBODAETH**

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymdrin â materion masnachol sensitif sef pris am gyfarpar meddalwedd a thrwyddedau. Gall datgelu'r wybodaeth yma effeithio sefyllfa fasnachol y Cyngor drwy danseilio hyder cyflenwyr y byddai'r Cyngor yn ymdrin â gwybodaeth mewn ffordd briodol ac felly eu darbwyllo rhag cynnig i'r dyfodol. Gall datgelu'r wybodaeth hefyd rhoi mantais i gystadleuwyr drwy ddatgelu manylion prisiau a chynigion y cwmni. Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o wariant y Cyngor ar gontractau rhaid cloriannu hynny yn erbyn y budd o sicrhau fod gwybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei barchu er gwarchod gallu'r Cyngor i ymdrin â'r farchnad yn briodol er sicrhau gwerth am arian

## 11. UWCHRADDIO MEDDALWEDD GWEINYDDU PENSIYNAU I DDYGYMOD A CPLIL 2014

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gyllideb ychwanegol yn unol â'r argymhellion ar gyfer uwchraddio'r meddalwedd gweinyddu pensiynau er mwyn dygymod â gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 'newydd' o Ebrill 2014.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:30pm